

## Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd Dydd Iau 22<sup>ain</sup> Mawrth 2018, Swyddfa Safle Wylfa Newydd, Cemaes

### Yn bresennol:

Dennis Evans	Cadeirydd y Grŵp Cyswllt (Cadeirydd, Cyngor Cymuned Rhosybol)
Wyn Thomas	Dirprwy Gadeirydd y Grŵp Cyswllt (Grŵp Llandrillo Menai)

### Horizon

Sasha Davies	Pennaeth Datblygu Strategol
Ifer Gwyn	Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
Geraint Jones	Peiriannydd Prosiect
Daron Hodges	Rheolwr Safle Wylfa Newydd
Richard Foxhall	Rheolwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid
Delyth Owen	Swyddog Cynnwys y Gymuned

### Hefyd:

Manon Owen	Cyfieithydd – Cymen
Carli Evans Thau	Cofnodydd – Cymen

### Aelodau yn Bresennol

Cyng. Aled Morris Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Alwyn Rowlands	Cyngor ar Bopeth – Ynys Môn
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Bethan Morris	Swyddog Cynnwys y Gymuned
Dafydd Griffiths	Cyngor Cymuned Llanelian (Cadeirydd)
Cyng. Dafydd Rhys Thomas	CSYM, Ward Ynys Gybi
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf / Ynni Talybolion Cyf
Gafyn Jones	Magnox Ltd
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gerry Belanger	Cyngor Tref Amlwch
John Chamberlain	Cymdeithas Amaethyddol Môn/ Clwb Rotari Caergybi
Lowri Joyce	Hitachi
Medwyn Griffiths	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Michael Dodds	Aelod o'r Cyhoedd
Susan P Scott	Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn
Dr Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Arolygydd Trevor Howes	Pwynt Cyswllt Unigol yr Adeilad Niwclear Newydd

### Ymddiheuriadau:

Aaron Bayley	Ysgol Syr Thomas Jones
Aled Rowlands	National Grid
Alli Hunt	Academi Sgiliau Cenedlaethol Niwclear
Andrew Connolly	National Grid
Annwen Morgan	CSYM, Prif Weithredwr Cynorthwyol
Bryn Jones	Prifysgol Bangor
Carys Davies	CSYM, Pennaeth AD

Derek Owen	Cadeirydd, Cyngor Cymuned Llanbadrig
Derek Vaughan	ASE
Enid Williams	CSYM, Gwasanaethau Ieuencid
Gareth Williams	National Grid
Cyng. G O Jones	CSYM, Ward Llifon
Dr Gwynne Jones	CSYM, Prif Weithredwr
Gwynne Morris Jones	Cyngor Diogelu Cymru Wledig
Hywel Williams AS	Ward Arfon
Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Jackie Blackwell	Cyngor ar Bopeth
Janet Finch Saunders AC	Ward Aberconwy
Cyng. John Griffith	CSYM, Ward Talybolion
Dr John Idris Jones	Morlais
Cyng. Llinos Medi Huws	CSYM, Arweinydd y Cyngor, Ward Talybolion
Llyr Griffith AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Ogledd Cymru
Mel O Hara	Aelod o'r Cyhoedd
Melanie Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan
Robin Beckmann	Llywodraeth Cymru, Pennaeth Rhaglenni Ynni a'r Sector Niwclear
Sian Gwenllian AC	Ward Arfon
Steve Graham	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
Tris Denton	Menter Newydd
Wil Edwards	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, wedi'i gynnwys ar y rhestr neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost at [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com)

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost at [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com) ac ewch i [www.horizonnuclearpower.com/hafan](http://www.horizonnuclearpower.com/hafan)

Mae modd gweld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar wefan Grŵp Cyswllt y Prosiect: [www.wylfaplg.com](http://www.wylfaplg.com)

## 1 Croeso, cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2017 a materion yn codi – Dennis Evans

Croesawodd Dennis Evans bawb i'r cyfarfod am 5.30pm. Nododd y Cadeirydd y ddamwain drasig yn RAF y Fali yn gynharach yn yr wythnos, gan gydnabod fod damweiniau yn digwydd a'i bod yn bwysig pennu a chwrdd â safonau uchel yn y diwydiant a'u cynnal.

Nodwyd bod Gwen Parry Jones wedi ei phenodi i ymuno â tîm Horizon yn Wylfa Newydd. Dechreuodd Ms Jones ei gyrfa yn Wylfa, ac mae ganddi brofiad helaeth a chyfoeth o wybodaeth yn y diwydiant. Wedi ei geni a'i magu ar Ynys Môn, mae wedi dychwelyd i'w hardal enedigol i fyw a gweithio.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir, cynigiwyd gan Dr Tom Conway, pawb yn cytuno.

Nododd y Cadeirydd bod Horizon yn agos at gyflwyno'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu i Lundain. Bydd Ifer Gwyn yn rhoi diweddariad yn nes ymlaen yn y cyfarfod, a darperir gwybodaeth bellach am welliannau i'r A5025 gan Geraint Jones.

Mae materion y National Grid yn mynd ymlaen yn barhaus. Disgwylir y caiff penderfyniad ei gadarnhau ynghylch man croesi'r Fenai yn ystod yr haf.

## 2 Cyflwyniad a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Wylfa Newydd – Sasha Davies

Diolchodd **Sasha Davies (SD)** i bawb am eu presenoldeb ac am y cyfle i roi diweddariad ar ran Horizon. Nododd, yn dilyn ailstrwythuro uwch reolwyr, bod Greg Evans wedi'i ddyrchafu i rôl 'Cyfarwyddwr Gweithredol – Gweithrediadau', wedi'i leoli'n bennaf yng Nghaerloyw ond hefyd yn treulio amser yn swyddfa safle Wylfa Newydd. Yr oedd y tîm lleol wedi'i gryfhau'n sylweddol drwy benodiad Gwen Parry Jones yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Niwclear. Bydd Gwen wedi'i lleoli yn swyddfa safle Wylfa Newydd, a gobeithir y bydd hefyd yn gallu mynychu cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt i gwrdd â'r aelodau.

Nododd **SD** bod llawer o waith wedi'i gwblhau ar y safle ac yng Nghaerloyw o ran paratoi 427 o ddogfennau a oedd yn ffurfio rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Byddai Ifer Gwyn yn rhoi gwybodaeth bellach yn nes ymlaen yn y cyfarfod. Gobeithir cyflwyno'r cais i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) ddiwedd Mawrth.

Addysg – hysbyswyd y rhai a oedd yn bresennol fel yr oedd Horizon yn parhau â'u rhaglen ymgysylltu gan ymweld ag ysgolion cynradd ac uwchradd ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd, a hefyd yn dosbarthu llyfrau i ddisgyblion fel rhan o Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched. Bydd ceisiadau ar gyfer Wythnos Cipolwg ar Waith eleni yn agor yn gynnar ym mis Ebrill gan ddarparu cyfleoedd am leoliadau gwaith i ddisgyblion TGAU a Lefel A. Mae'r Rhaglen Profi mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor wedi cael ei rhoi ar restr fer Gwobr Celfyddydau a Busnes Cymru.

Datblygiad y Gadwyn Gyflenwi a Sgiliau – Nododd **SD** fod porth yn cael ei ddatblygu ar gyfer y gadwyn gyflenwi – CompeteFor – ac y y gallai cynrychiolydd fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y grŵp i ateb unrhyw gwestiynau pe byddai angen. Disgwylir i'r porth gael ei lansio yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gyda dros 200 o geisiadau ar gyfer y rownd nesaf o brentisiaethau, mae cyfweiliadau ac asesiadau i fod i gael eu cynnal ym mis Ebrill. Ar hyn o bryd mae 33 o unigolion yn dilyn rhaglenni hyfforddi yng Ngholeg Menai fel rhan o'r rhaglen brentisiaethau.

Yn y Gymuned – mae Horizon bellach wedi cael bws cymunedol a fydd yn darparu modd i swyddogion ymweld â gwahanol gymunedau ac ardaloedd gwledig i rannu gwybodaeth a derbyn adborth gan drigolion lleol. Bydd y cerbyd yn darparu cyfleoedd i gwrdd â phobl lle nad oes lleoliad addas neu hygyrch ar gael, o bosibl.

Nododd SD bod dros £75k wedi cael ei roi i wahanol brosiectau ledled Gogledd Cymru fel rhan o'r Cynllun Rhoddion Elusennol yn ystod 2017/18. Mae Horizon hefyd yn cefnogi prosiectau mewn ffyrdd eraill, ac ar wahân i ddarparu 1,000 o festiau llachar heb eu brandio, i'w cadw yn y gymuned ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol a allai fod eu hangen, mae staff Horizon hefyd wedi cymryd rhan mewn ymgais i dorri'r record byd am y nifer o bobl mewn festiau llachar yn Amlwch. Er na chafwyd llwyddiant gyda'r ymgais am record byd, fe wnaeth y

digwyddiad osod record newydd ar gyfer y DU ac Ewrop.

Gweithgarwch ar y Safle –rhoddodd **Daron Hodges (DH)** grynodedb o weithgarwch ar y safle. Mae gwaith ymchwiliadau tir bellach wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mae archwiliadau archeolegol yn parhau. Mae gwaith adeiladu ar yr ail ysgubor ystlumod yng Nghemaes ar fin dechrau gan ddangos ymrwymiad amgylcheddol y cwmni. Nododd Daron Hodges fod y gwaith i adnewyddu hen Ganolfan Ymwelwyr Magnox wedi dechrau, ac y gobeithid y byddai'r caffin ailagor yn y dyfodol agos.

Diolchodd y Cadeirydd i **Sasha Davies** a **Daron Hodges** am yr wybodaeth a rannwyd, gan nodi fod 2018 yn flwyddyn bwysig i Horizon ac i'r gymuned leol.

### 3 Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) a chaniatâd cynllunio, y sefyllfa ddiweddaraf – Ifer Gwyn

Diolchodd **Ifer Gwyn (IG)** i'r Cadeirydd am y gwahoddiad i fod yn bresennol a darparu diweddariad ar y broses DCO. Nododd bod y rhan fwyaf o'r dogfennau ar ffurf drafft yn barod i'w cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) ddiwedd y mis. Mae cyfanswm o 427 o ddogfennau yn ymestyn dros 33,000 o dudalennau. Mae gan PINS 28 diwrnod i dderbyn y cais cyn gosod amserlen benodol ar gyfer ystyried yr wybodaeth (mae proses benodol i'w dilyn). Yn ogystal, mae dau gais dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA) yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle ac ar gyfer Gwelliannau i Briffordd yr A5025. Nid yw'r rhannau newydd arfaethedig o'r briffordd wedi'u cynnwys yn y TCPA gan fod y rhain yn ffurfio rhan o'r cais am DCO.

Ar hyn o bryd mae Horizon wrthi'n creu dogfen i helpu pobl i ganfod gwybodaeth berthnasol o fewn y cais DCO. Pan fyddant wedi eu cyflwyno, bydd yr holl ddogfennau ar gael ar wefan PINS ([infrastructure.planninginspectorate.gov.uk](http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk)), gyda chopïau caled ar gyfer cyfeirio yn unig ar gael yn Swyddfa Safle Horizon ac yng Nghanolfan Fusnes Môn, Llangefni. Mae'r holl ddogfennau annhechnegol wedi cael eu cyfieithu a byddant ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ogystal â'r cais am DCO, bydd ceisiadau am drwyddedau'n cael eu cyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru (NRW). Mae'r ceisiadau hyn i'w hystyried ar y cyd â'r cais am DCO gyda thystiolaeth yn croesgyfeirio o'r cais DCO. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn pennu'r amserlen ar gyfer ymgynghori ar y ceisiadau hyn, ac ar gyfer cymeradwyo trwyddedau.

### Cwestiynau a Sylwadau

**Wyn Thomas (WT)** - nododd y dylid canmol y cyfleoedd a oedd yn cael eu cynnig i'r holl brentisiaid a bod y ffaith y byddai'r garfan newydd hefyd yn ymweld â Japan yn addawol. Wedi'u llunio ar gyfer anghenion y diwydiant niwclear, bydd y cyfleusterau newydd sy'n cael eu datblygu yng Ngholeg Menai ar safle Llangefni yn sicrhau fod cyfranogwyr yn barod o ran sgiliau. Nodwyd bod Mona Lifting wedi sicrhau contract rhyngwladol mawr yn ddiweddar, gan ddangos, gyda'r mentora cywir, fod gennym y sgiliau a'r gallu ar drothwy ein drws.

**Dr Tom Conway (TC)** - gofynnodd a oedd y cyflenwad dŵr a fyddai ei angen i weithredu

Wylfa Newydd yn debygol o effeithio ar y cyflenwad lleol. Atebodd **IG** fod Horizon yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru ar hyn o bryd i gael gwared ag unrhyw effaith posibl ac i uwchraddio'r system fel bo angen. Cadarnhaodd DH fod Dŵr Cymru'n edrych ar y posibilrwydd o osod prif gyflenwad dŵr newydd yn uniongyrchol i'r safle.

Roedd y Cadeirydd wedi'i sicrhau bod y broses gynllunio o gyflwyno'r cais DCO wedi'i gosod ar amserlen dynn er mwyn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, cwrdd â phartion a diddordeb a dod i benderfyniad mewn modd amserol. Disgwylir i'r broses gyfan, o dderbyn y cais hyd at y penderfyniad terfynol, gymryd oddeutu 18 mis. Bydd cyfarfod bwrdd Hitachi yn cael ei gynnal ar 28ain Mawrth i gymeradwyo'r dogfennau i'w cyflwyno i PINS ddiwedd y mis.

#### **4 Diweddariad ar y cynigion ar gyfer yr A5025 – Geraint Jones**

Rhoddodd **Geraint Jones (GJ)** olwg gyffredinol ar y cynigion ar gyfer gwelliannau i'r ffordd. Mae cynigion ar gyfer gwelliannau eisoes wedi'u cyflwyno i Adran Gynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, mewn cydweithrediad ag Adran Briffyrdd y Cyngor fel perchennog ac awdurdod cyfrifol. Bydd y newidiadau i'r llinell megis ffyrdd osgoi a darnau newydd o ffordd yn ffurfio rhan o'r cais am DCO.

Esboniwyd mai diben y gwelliannau oedd creu priffordd gyson gydag isafswm lled o 7.3m, gan gynnwys y palmant a'r llain galed. Cadarnhawyd y byddai'r gwelliannau'n unol â'r tirwedd lleol ac y byddai'r effaith amgylcheddol yn cael ei lleihau i'r eithaf. Dangosodd **GJ** fap yn dangos lleoliad gwelliannau a newidiadau ar hyd yr A5025 o'r Fali i Wylfa Newydd.

Esboniodd **GJ** fod man cyfyng tybiedig yng Nghefn Coch, a oedd yn achosi pryder i rai aelodau a thrigolion ers y newid i'r cynigion gwreiddiol, yn parhau i fod yn gyson â'r lled o 7.3m. Yr oedd y dyluniad wedi ei newid i leihau'r effaith amgylcheddol ar y coetir hynafol drwy ail-linio'r gwaith cloddio ac aliniad y gyffordd. Yr oedd y dyluniad wedi'i gymeradwyo gan Adran Briffyrdd CSYM.

#### **Cwestiynau a Sylwadau**

Diolchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones (AMJ) i GJ am ei gyflwyniad a nododd fod angen gwella'r ffordd o Gemaes i gyfeiriad Amlwch. Gofynnodd a oedd gan Horizon unrhyw gynlluniau o gwbl i edrych ar y mater hwn. Cydnabu Geraint Jones fod hwn yn fater sensitif a'i fod yn ymwybodol fod Adran Briffyrdd CSYM yn edrych ar gynlluniau ar gyfer gwelliannau. Gall Horizon ddarparu cefnogaeth i CSYM gyda'r datblygiad hwn.

Mae'r cais cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r ffordd yn parhau gydag Adran Gynllunio CSYM. Gobeithir y gall y gwaith ddechrau yn 2018, fodd bynnag mae'r amseriad yn dibynnu ar gaffael yr holl dir a sicrhau caniatâd cynllunio gan CSYM.

Nododd y Cynghorydd Dafydd Rhys (DRh) fod trigolion y Fali'n bryderus na fyddai unrhyw fynediad uniongyrchol i bentref y Fali o'r A5025 ac y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar fusnesau. Cadarnhawyd, er na fyddai mynediad uniongyrchol i'r pentref i/o Lanyngghenedl, byddai mynediad drwy gylchfan newydd ac nad oedd yn ymddangos y byddai unrhyw effaith negyddol ar fynediad i'r pentref.

Gofynnodd Dafydd Griffiths (DG) beth oedd y bwriad o ran Llwybr Beicio Sustrans; a fyddai

yna fannau croesi dynodedig lle byddai'r llwybr yn croesi'r A5025 wedi iddi gael ei gwella? Cadarnhawyd y byddai croesfannau yn cael eu symud oddi wrth gyffyrdd i sicrhau diogelwch pob defnyddiwr; fodd bynnag byddai'r flaenoriaeth bob amser yn cael ei rhoi i gerbydau modur.

Mae'r gwelliannau ffyrdd a gynigir er mwyn gwneud y daith o'r Fali i Gemaes yn llyfnach ac yn fwy diogel, nid er mwyn cynyddu cyflymder. Nododd AMJ fod y gwelliannau i'r ffordd yn anghenraid strategol i'r prosiect ac nid yn fudd i'r gymuned. Nodwyd, fodd bynnag, fod y gwelliannau yn rhoi budd i'r gymuned ehangach.

Gofynnodd TC a oedd Horizon yn bwriadu gwahardd holl draffig Wylfa Newydd rhag defnyddio'r A5025 o Amlwch, gan mai dyma fyddai'r unig gyfiawnhad dros beidio â gwella'r ffordd. A oedd unrhyw gynigion i ddatblygu Safle Rhosgoch wedi'u cynnwys yn y DCO? Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gynigion o'r fath.

Gofynnodd AMJ a oedd Horizon yn dal i fwriadu darparu llety i 4000 o weithwyr dros-dro ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu. Os felly, dyma gyfle wedi'i golli i wasgaru effaith cynifer o bobl ar gymuned fechan drwy rannu cyfleusterau rhwng dau safle.

Nododd **DH** y bydd gan bob contractwr, fel amod sylfaenol, ofyniad i fynd i'r safle o'r Fali; fodd bynnag, gan gydnabod yr angen i fod yn synhwyrol a defnyddio synnwyr cyffredin - ni fyddai disgwyl i gontractwyr lleol fel CMP deithio o gwmpas yr ynys.

## **5 Unrhyw Fater Arall**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chaeodd y cyfarfod am 6.25pm.

**Cyfarfod nesaf – Dydd Iau 28 Mehefin 2018**

Llofnod  
Dennis Evans  
Cadeirydd